




5 Y Ddrama

Roderick Hunt

Alex Brychta


Coeden
Ddarllen
Rhydychen



DRAKE



Aeth Cad a Dids i'r ysgol.
Aethon nhw gyda Wilff a Wilma.



Roedd Cad a Dids yn hoffi Mrs Jones.
Roedden nhw yn ei dosbarth hi.


Roedd Wilff yn hoffi Mrs Jones.
Roedd e yn ei dosbarth hi hefyd.



Roedd yn amser stori.



Stori oedd hi am Ddewin Oz.
Roedd yn sôn am ferch a'i chi.



Dorothy oedd y ferch.

Roedd yna storm.


Chwythodd y gwynt y tŷ i ffwrdd.



Cyfarfu Dorothy â'r Bwgan Brain.
Cyfarfu â'r Dyn Tun.
Cyfarfu â'r Llew.



Cyfarfu Dorothy â gwrach.



Roedd yna storm.
Roedd yn amser chwarae.




Fedrai'r plant ddim chwarae y tu allan.



Chwaraeodd y plant y tu mewn.
Chwaraeon nhw Ddewin Oz.



Roedd Mrs Jones yn hoffi'r ddrama fach.



Llwyfannodd Mrs Jones ddrama.
Dewin Oz oedd y ddrama.



Helpodd Mam Wilff Mrs Jones.



Dids oedd y Dyn Tun.
Wilff oedd y Llew.




Gwrach oedd Cad.




Helpodd tad Wilff Mrs Jones.
Paentiodd dŷ.

Helpodd y plant e.



Daeth y mamau a'r tadau.
Roedden nhw'n hoffi'r ddrama.



'Am ddrama dda!' medden nhw.



Roedd y plant yn hoffi'r ddrama.
Rhoddon nhw flodau i Mrs Jones.

'Roedd yn hwyl,' meddai Wilff.



Roedd yn amser mynd adre.

Roedd yna storm.

‘Mae fel y ddrama,’ meddai Dids.

5 Y Ddrama



Stori gan
Roderick Hunt

Trosiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

Lluniau gan
Alex Brychta

Storïau yng Ngham 4:

Storïau Boncyff

- 1 Tŷ ar Werth
- 2 Y Tŷ Newydd
- 3 Dewch i Mewn!
- 4 Yr Ystafell Gudd
- 5 Y Ddrama
- 6 Y Storm

Rhagor o Storïau Pecyn A
Trefn ddarllen a gymeradwyir:

Wlychodd Neb
Y Ceiliog Gwynt
Druan o Mam!
Y Briodas
Y Camcordydd
Y Balŵn



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 4

Llyfr 5

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1986
© Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1998
© Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-145-5



9 780861 741458

ISBN 0 86 174145 5

DRAKE